Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 29 Chwefror 2012
10.30 – 13.00

Prifysgol Abertawe

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Yr Athro R. Merfyn Jones (Cadeirydd) Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli Staff Academaidd / Deon Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Medwin Hughes, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Aled Gruffydd Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Gareth Pierce, Cyfarwyddwr Annibynnol Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd y Coleg Dr Dafydd Trystan, Rheolwr Datblygu'r Coleg
Sylwedyddion:	Dr Alison Allan, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Lisa Newberry, Addysg Uwch Cymru
Ymddiheuriadau:	Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Luke Young, Cyfarwyddwr yn cynrychioli Myfyrwyr

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1 Sylwadau Agoriadol ac Ymddiheuriadau	1.1. Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod, a nodwyd gair o ddiolch i Brifysgol Abertawe am letya'r cyfarfod. 1.2. Estynnwyd croeso arbennig i Ieuan Wyn i'w gyfarfod cyntaf fel Cyfarwyddwr Annibynnol. 1.3. Nodwyd y derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Iwan Davies (Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch), yr Athro Hywel Thomas (Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch), a Luke Young (Cyfarwyddwr yn cynrychioli Myfyrwyr).		
2 Datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi. 2.2. Cadarnhawyd y byddai'r Gofrestr o ddatganiadau o fuddiannau Cyfarwyddwyr yn cael ei diweddaru yn dilyn ymddeoliad dau Gyfarwyddwr, ac yn sgil penodi dau Gyfarwyddwr newydd.	Diweddaru'r Gofrestr	Mehefin 2012
3 Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2011	3.1. Nodwyd fod y cofnodion wedi eu derbyn yn ffurfiol yng nghyfarfod arbennig y Bwrdd ar 13 Rhagfyr 2011, ond nodwyd yr angen i ystyried materion yn codi o'r cofnodion gan na chafwyd ymdriniaeth fanwl â'r materion hyn yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr. 3.2. <u>Targedau'r sefydliadau mewn perthynas â chofrestriadau cyfrwng Cymraeg</u> – Nodwyd fod swyddogion y Coleg wedi dechrau trafodaethau â'r sefydliadau unigol parthed eu targedau cyfrwng Cymraeg. Nodwyd y byddai'r trafodaethau hyn yn parhau dros y misoedd nesaf, a chadarnhawyd y byddai drafft terfynol Cynllun Academaidd y Coleg yn cynnwys targedau cenedlaethol.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	3.3. Cefnogaeth y Coleg i brifysgolion lle nad oes swyddogion cydlynu – Yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, adroddwyd fod y Coleg wedi cytuno i ddarparu grant cyfwerth ag un diwrnod llawn o waith swyddog cangen i Brifysgol Casnewydd. 3.4. Gofodau Dysgu – Nodwyd fod cylchlythyr wedi'i ddosbarthu ar 16 Chwefror 2012 (Cylchlythyr Cyf:11/15) yn amlinellu cynlluniau'r Coleg i ddatblygu 'Gofodau Dysgu' rhyng-gysylltiol at ddibenion addysgu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn deillio o gynlluniau'r Coleg. Gwahoddwyd sefydliadau addysg uwch oedd yn dymuno bod yn rhan o'r cynllun i ymateb erbyn 1 Mawrth 2012. Nodwyd fod y Coleg hefyd wedi dechrau trafodaethau gyda rhai o'r prifysgolion parthed y materion ymarferol sydd ynghlwm â datblygiad o'r fath. 3.5. Cynlluniau ysgoloriaethau israddedig a Lefel M y Coleg – Nodwyd fod y Coleg wedi cyflwyno adroddiad monitro i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar weithrediad y cynlluniau ysgoloriaethau yn 2010/11. Ar sail profiad y flwyddyn gyntaf o redeg y cynllun, gofynnodd swyddogion y Coleg am gefnogaeth y Bwrdd i gyflwyno cais i'r Cyngor Cyllido am yr hawl i amrywio'r cydbwysedd rhwng y categorïau gwahanol o ysgoloriaethau er mwyn osgoi'r angen i ail-agor y cynllun yn ystod y flwyddyn, ynghyd â chais i ail-edrych ar drefniadau'r Ysgoloriaethau Lefel M (megis drwy gyllido nifer llai o ysgoloriaethau a fyddai'n uwch eu gwerth) er mwyn cynyddu nifer y ceisiadau. 3.5.1. Cytunodd y Bwrdd i gefnogi'r argymhelliad, gan nodi'r gobaith y byddai cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr am ysgoloriaethau cymhelliant yn y dyfodol wrth i nifer y cyrsiau cymwys gynyddu.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
4 Derbyn ac ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2011	4.1. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.		
5 Materion yn codi	5.1. <u>Pwyllgor Penodiadau</u> – Yn dilyn penodi Meirion Prys Jones yn gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, nodwyd y penodwyd dau aelod arall i'r panel, sef Rhiannon Lloyd (cyn-bennaeth Ysgol Glantaf) a'r Athro Gareth Roberts (cyn Ddirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor). Nodwyd y gwaith a gwblhawyd gan y Pwyllgor yn ystod yr wythnosau diwethaf er mwyn penodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd, a chadarnhawyd fod y penodiadau hynny (yr Athro Iwan Davies ac Ieuan Wyn) wedi eu cadarnhau yng Nghyfarfod Blynyddol y Coleg (Cyfarfod Llys y Coleg) ar 28 Chwefror.		
	5.2. <u>Cyllid i sefydliadau Addysg Bellach</u> – Nodwyd fod y Cyngor Cyllido wedi cadarnhau fod sefydliadau Addysg Bellach yn gymwys i dderbyn cyllid o gronfeydd y Coleg, os yw'r ddarpariaeth dan sylw yn derbyn cyllid uniongyrchol gan y Cyngor Cyllido. Os yw sefydliad yn dymuno gwneud cais am gyllid i gefnogi datblygiadau yn ymwneud â darpariaeth '*franchise'*, cadarnhawyd y byddai'n ofynnol i'r cais gael ei gyflwyno gan y Brifysgol berthnasol. Er mwyn osgoi unrhyw amwysedd, cadarnhawyd y byddai'r Cyngor Cyllido yn darparu data i'r Coleg yn nodi pa gyrsiau penodol yn y sefydliadau Addysg Bellach sy'n gymwys i dderbyn cyllid gan y Coleg.	Cyngor Cyllido i ddarparu gwybodaeth i'r Coleg.	Erbyn Medi 2012.
	5.3. <u>Gwasg Prifysgol Cymru</u> – Nodwyd fod y Wasg wedi cyflwyno cytundeb cyhoeddi drafft i ystyriaeth y Coleg er mwyn	Dogfen newydd i'w llunio a'i hystyried gan y Grŵp	

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	ffurfioli'r berthynas rhwng y ddau sefydliad, a chyflwynwyd y ddogfen i ystyriaeth Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi'r Coleg, yn eu cyfarfod ar 24 Chwefror. Yn dilyn trafodaeth aelodau'r Grŵp hwnnw ar gynnwys y cytundeb, nodwyd y cytunwyd na ddylid ymrwymo i'r cytundeb dan sylw ond y dylid, yn hytrach, lunio cytundeb generig ar gyfer gweisg / cyhoeddwyr yn gyffredinol, heb gyfyngu i un wasg yn benodol. 5.3.1. Nodwyd, er gwybodaeth, fod y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi hefyd wedi cytuno i edrych ar sut y mae'r sefydliadau wedi defnyddio'r arian sydd wedi ei ddosrannu iddynt gan y Cyngor Cyllido parthed cyhoeddiadau Cymraeg, a sut y maent yn bwriadu dosrannu'r arian dros y 2/3 mlynedd nesaf. 5.3.2. Cymeradwyodd y Bwrdd y naill benderfyniad a'r llall.	Ymchwil a Chyhoeddi.	
6 Gohebiaeth	6.1. Nid oedd unrhyw ohebiaeth i'w nodi.		
7 Penodi Is-Gadeirydd	7.1. Nodwyd fod y Cadeirydd wedi gwahodd Gareth Pierce i gael ei benodi'n Is-Gadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr, a chadarnhawyd ei fod wedi derbyn y gwahoddiad. Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r penodiad.		
8 Materion Academaidd (BC/12/01/08)	8.1. Wrth agor yr eitem ar yr agenda, nodwyd y byddai'r eitem hon yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol, yn dilyn sefydlu'r Bwrdd Academaidd. Nodwyd y byddai cofnodion y Bwrdd Academaidd ac unrhyw gyfarfodydd o is-bwyllgorau perthnasol hefyd yn cael eu hatodi gyda phapurau cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn y dyfodol, er gwybodaeth. 8.2. Nodwyd y cofnodion a atodwyd gyda phapurau'r cyfarfod hwn, a nodwyd nad oes cyfieithiad o'r cofnodion hyn ar gael ar hyn o bryd. 8.2.1. Nodwyd fod materion penodol i'w nodi yn y cyfarfod hwn yng	DT i gysylltu â'r swyddog	Ar unwaith.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	nghyd-destun y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi. Nododd Cadeirydd y Grŵp, yr Athro Aled Gruffydd Jones, fod y Grŵp wedi cytuno ar yr angen i ddelio, fel mater o frys, â materion yn ymwneud â'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY). Nodwyd nad oedd pob sefydliad wedi/yn rhoi'r sylw dyledus i allu staff academaidd i gyflwyno gwaith cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r asesiad. Cytunwyd y dylid mynd i'r afael â'r sefyllfa ar unwaith. Fel cam cyntaf, cytunwyd y byddai DT yn cysylltu â'r swyddog perthnasol yn y Cyngor Cyllido i drafod y mater, ac yna byddai'r Coleg yn ystyried y camau nesaf yn ddibynnol ar ganlyniadau'r drafodaeth honno. 8.2.2. Nodwyd fod Bwrdd Golygyddol *Gwerddon* hefyd wedi trafod y mater dan sylw, gan nodi'r her sy'n wynebu darlithwyr yn wyneb agwedd negyddol rhai adrannau a disgyblaethau tuag at gyhoeddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd fod y Bwrdd Golygyddol hefyd yn gadarn eu barn fod angen gweithredu buan er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gamddealltwriaeth o'r canllawiau i ddarlithwyr parthed eu cyflwyniadau i'r FfRhY. 8.3. Cafwyd adroddiad llafar gan Gadeirydd y Bwrdd Academaidd (Deon y Coleg), Dr Hefin Jones (HJ), ar waith y Bwrdd Academaidd hyd yma. 8.3.1. Cyn adrodd ar waith y Bwrdd yn benodol, nododd ei fod yn bwriadu cyflawni rhai dyletswyddau yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Deon y Coleg, yn ychwanegol at weithredu fel cadeirydd y Bwrdd Academaidd. Nododd yn benodol ei fod yn bwriadu treulio diwrnod llawn yn rheolaidd yn swyddfa ganolog y Coleg yng Nghaerfyrddin; y bydd yn bwriadu ymweld â, a threulio un diwrnod, ym mhob prifysgol a mynychu cyfarfod pwyllgor pob sefydliad unwaith yn ystod y flwyddyn; y bydd yn ceisio mynychu cynifer o gynadleddau a gweithdai'r Coleg ag sy'n bosibl yn ystod y flwyddyn.	perthnasol yn y Cyngor Cyllido i drafod y mater. Swyddogion y Coleg i ystyried y camau nesaf yn ddibynnol ar ganlyniadau'r drafodaeth honno.	

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	8.4. Wrth adrodd ar waith y Bwrdd Academaidd, nododd HJ fod ail ddrafft o Gynllun Academaidd y Coleg wedi ei lunio, a'i atodi gyda'r papur i'r Bwrdd, yn dilyn trafodaeth lawn yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ar 1 Chwefror 2012. 8.4.1. Nododd HJ air o ddiolch i aelodau'r Bwrdd Academaidd am eu cyfraniad gwerthfawr i'r gwaith o lunio'r Cynllun, gan nodi fod y trafodaethau yn y cyfarfodydd yn eang ac yn sylweddol. Nodwyd hefyd air o ddiolch yn swyddogol i DT am ei waith caled yn arwain ar y broses o greu'r Cynllun. 8.5. <u>Cynllun Academaidd y Coleg</u> 8.5.1. Wrth gyflwyno'r Cynllun i ystyriaeth y Bwrdd, nodwyd yr egwyddorion a'r themâu allweddol a oedd wrth wraidd y fframwaith a gyflwynwyd yn y Cynllun. Cyflwynwyd adrannau'r Cynllun yn eu tro, ac ystyriwyd y ddogfen fesul tudalen. 8.5.2. Cyn agor y drafodaeth ar gynnwys y Cynllun, a gwahodd sylwadau'r Cyfarwyddwyr, nodwyd y camau nesaf yn y broses tuag at gymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun, gan gynnwys y bwriad o gynnal proses ffurfiol o ymgynghori ar y ddogfen rhwng canol Mawrth a diwedd Ebrill, gyda'r nod o sicrhau fod y Cynllun yn weithredol o 1 Awst 2012. 8.5.3 Cafwyd trafodaeth lawn ar gynnwys y Cynllun, a nodwyd y pwyntiau a ganlyn: (i) Nodwyd y dylid rhoddi pwyslais cryfach ar addysg ôl-radd ar ddechrau'r ddogfen; (ii) Nodwyd y dylid gwneud cysylltiad eglur parthed y cyswllt rhwng 'ansawdd' y ddarpariaeth a'r mesuryddion perfformiad, gan gynnwys nodi'n eglur pa un ai'r sefydliadau unigol neu'r Coleg sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth sy'n derbyn cyllid drwy un o gynlluniau'r Coleg; (iii) Yng nghyd-destun yr awgrym yn y Cynllun nad yw'n		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	gynaladwy nac yn gyson gydag arfer academaidd gorau Ysgol/Adran i gynnig pwnc yn eang drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. o leiaf 80 credyd y flwyddyn), heb fod o leiaf pedwar aelod o staff academaidd yn cynnig y ddarpariaeth – nodwyd yr angen i sicrhau fod y cymal yn cydnabod yn ddiamwys y gwahaniaethau rhwng ysgolion/adrannau a sefydliadau, a'r modd y defnyddir mewnbwn gan staff rhan-amser, staff a delir fesul awr ayyb.		
	(iv) Nodwyd yr angen i sicrhau fod y prifysgolion yn cyd-gynllunio â'r Coleg. Yn y cyd-destun hwn, nodwyd ei bod felly'n hanfodol fod y sefydliadau'n ymateb yn ystyrlon i'r ymgynghoriad. Er mwyn sicrhau ystyriaeth a deialog ar y lefel priodol rhwng y prifysgolion a'r sefydliadau, awgrymwyd y dylid anfon llythyr ffurfiol gan Brif Weithredwr y Coleg i'r Is-Gangellorion yn nodi'r broses ymgynghorol, gan nodi y disgwylir ymateb swyddogol gan y prifysgolion ar gynnwys y ddogfen. Cytunwyd y byddai swyddogion y Coleg yn anfon llythyr o'r fath yn dilyn y cyfarfod.	Llythyr ffurfiol i'w anfon i'r Is-Gangellorion gan Brif Weithredwr y Coleg yn nodi'r broses ymgynghorol, a phwysigrwydd sicrhau ymateb ffurfiol gan y sefydliadau yn ystod y broses honno.	Mawrth 2012.
	(v) Nodwyd yr her o ddenu myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r angen i fynd i'r afael i raddau helaethach â materion dilyniant. Yn dilyn trafodaeth ar y mater, cynigwyd a chytunwyd y dylid sefydlu is-bwyllgor o Fwrdd y Cyfarwyddwyr i drafod holl ymwneud y Coleg â materion dilyniant, a'r gwaith o hyrwyddo addysg uwch cyfrwng Cymraeg.	Y Coleg i sefydlu is-bwyllgor i drafod holl ymwneud y Coleg â materion dilyniant, a'r gwaith o hyrwyddo addysg uwch cyfrwng Cymraeg.	Ebrill / Mai 2012.
	(vi) Nodwyd yr angen i gynnwys ymdriniaeth lawnach ag addysg gydol oes yn y cynllun, a chytunwyd i ychwanegu manylion i'r ddogfen mewn perthynas â hyn.		
	8.5.4. Yn dilyn y drafodaeth, cytunwyd y byddai swyddogion y Coleg yn diwygio'r ddogfen er mwyn adlewyrchu'r sylwadau a	Swyddogion y Coleg i ddiwygio'r ddogfen, cyn	Ar unwaith.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	nodwyd, cyn bwrw ymlaen ar unwaith â'r broses ymgynghorol.	bwrw ymlaen ar unwaith â'r broses ymgynghorol.	
	8.6. <u>Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA)</u> 8.6.1. Nodwyd cyd-destun a chefndir ymwneud y Coleg â maes HCA, a'r cytundeb ar yr angen i sicrhau fod HCA yn cael ei gynnwys yn llawn yng ngwaith y Coleg, ac o fewn y Cynllun Academaidd.		
	8.6.2. Nodwyd y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2012 rhwng swyddogion y Coleg a chynrychiolwyr o'r holl sefydliadau sy'n rhan o'r Canolfannau Addysg Athrawon rhanbarthol a chynrychiolydd o'r Cyngor Cyllido, i drafod ymwneud y Coleg yn y dyfodol â maes HCA, a nodwyd y cytundeb yn y cyfarfod y byddai'r Coleg, mewn cydweithrediad a'r canolfannau, yn paratoi Cynllun Datblygu ar gyfer y maes.	Swyddogion y Coleg i fwrw ymlaen â'r gwaith o lunio Cynllun Datblygu ar gyfer maes HCA.	Tymor yr Haf
	8.6.3. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i ystyried yr argymhelliad yn y papur, y dylid dynodi swm penodol o gronfeydd y Coleg y gellid ei ddyfarnu i sefydliadau i gefnogi gweithgareddau ym maes HCA. Nodwyd mai trefniant tymor byr fyddai hwn, tan bod Cynllun Datblygu mewn lle a fyddai'n adnabod blaenoriaethau cyllido yn y maes.	Y Coleg i weithredu'n unol â'r argymhelliad, gan sicrhau nad yw'r gweithgareddau a gyllidir ym maes HCA yn derbyn mwy na chyfanswm o £100,000 mewn blwyddyn drwy'r Gronfa Datblygiadau Strategol, ac i sicrhau na chyllidir mwy na thair swydd academaidd yn flynyddol yn y maes drwy'r Cynllun Staffio.	Ebrill 2012 ymlaen.
	8.6.4. Cymeradwywyd yr argymhelliad, a chytunwyd y byddai'r Coleg yn dynodi uchafswm o £100,000 y flwyddyn o'r Gronfa Datblygiadau Strategol y gellid ei ddyfarnu i gefnogi gweithgareddau ym maes HCA, ac y gellid dyfarnu hyd at dair swydd ym maes HCA drwy'r Cynllun Staffio Academaidd. Nodwyd y byddai'n ofynnol i'r gweithgareddau a gyllidir fod yn gyson â blaenoriaethau a fydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun Datblygu, pan fyddai'r Cynllun wedi ei gytuno.		
	8.7. <u>Ieithoedd Modern</u> 8.7.1. Cyn dechrau'r drafodaeth, datganodd Wyn Thomas, Prifysgol Bangor, ddiddordeb yn y mater dan sylw.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	8.7.2. Cafwyd cyflwyniad i gyd-destun y mater dan sylw, a'r datblygiadau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Ieithoedd Modern. 8.7.3. Nodwyd penderfyniad y panel dyfarnu parthed y cais am swydd mewn Almaeneg a gyflwynwyd gan Brifysgol Bangor i'r Cynllun Staffio Academaidd. Nodwyd argymhelliad y panel dyfarnu i beidio â chefnogi'r cais yn y ffurf y'i cyflwynwyd, ond argymell yn hytrach gyllido swydd mewn Almaeneg, gyda'r lleoliad i'w gadarnhau yn dilyn y cyfweliadau, gyda'r disgwyliad i'r sawl a benodir, ble bynnag y byddai wedi ei leoli/lleoli, i weithredu'n genedlaethol o fewn y fframwaith a fydd yn cael ei gytuno yn y Cynllun Datblygu diwygiedig ar gyfer y maes. 8.7.4. Gofynnwyd i'r Bwrdd, yn wyneb rhai cwestiynau sydd wedi eu codi yn dilyn cyhoeddi'r argymhelliad hwn, i gadarnhau eu penderfyniad mewn perthynas â'r swydd hon. 8.7.5. Cadarnhaodd y Bwrdd eu penderfyniad y dylid hysbysebu'r swydd yn unol â'r hyn a nodir yn 8.7.3. uchod, gan benderfynu ar leoliad y swydd yn dilyn y cyfweliadau, gyda'r amodau eglur y byddai disgwyl i'r sawl a benodir weithredu'n genedlaethol. 8.6. <u>Cronfa Grantiau Bach</u> 8.6.1. Nodwyd y broses ymgeisio am gyllid o'r Gronfa Grantiau Bach, a nodwyd y broses ar gyfer ystyried y ceisiadau a chyflwyno argymhelliad i ystyriaeth y Bwrdd. Nodwyd mai dyma'r cylch cyntaf o geisiadau i'w hystyried drwy'r Gronfa hon, a nodwyd bwriad y Coleg i gyflwyno cyfres o newidiadau a fyddai'n cael eu cynnwys yn y cylchlythyr a fyddai'n gwahodd y cylch nesaf o geisiadau i'r Gronfa. 8.6.2. Cymeradwywyd yr argymhellion parthed y newidiadau i'r broses yn ddiamod.	Swyddogion y Coleg i weithredu'n unol â'r argymhelliad, gan hysbysebu'r swydd yn unol â phenderfyniad y Bwrdd, gan nodi'r telerau a nodir yn 8.7.3 a 8.7.5. Swyddogion y Coleg i gyflwyno'r newidiadau i'r Gronfa Grantiau Bach yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn y papur.	Mawrth / Ebrill 2012. Ebrill / Mai 2012.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	8.6.3. Gwahoddwyd y Bwrdd i ystyried yr argymhellion ar brosiectau i'w cefnogi drwy'r Gronfa, fel y'u hamlinellwyd yn Atodiad 8/2. 8.6.4. Cymeradwywyd yr argymhellion yn unfrydol.		
9 Derbyn ac ystyried papur ar sefydlu canghennau'r Coleg a dyletswyddau swyddogion cangen (BC/12/01/09)	9.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur gan IM, a nodwyd fod y papur (i) yn darparu diweddariad ar sefydlu canghennau'r Coleg; (ii) yn cynnig argymhellion ar ddyletswyddau'r swyddogion cangen at y dyfodol, yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ar 17 Hydref 2011; a (iii) yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer darparu grantiau gan y Coleg i'r canghennau ar gyfer y cyfnod o flwyddyn academaidd 2012/13 ymlaen. 9.2. <u>Sefydlu Canghennau'r Coleg</u> 9.2.1. Nodwyd ei bod yn hanfodol i lwyddiant y Coleg fod canghennau gweithredol yn cael eu sefydlu yn y gwahanol sefydliadau, gan sicrhau presenoldeb gweladwy i'r Coleg yn y gwahanol leoliadau daearyddol, gan gynnwys man canolog a chyfleus y bydd modd i fyfyrwyr a staff ei gyrchu o ran cysylltu â'r Coleg ynghylch materion sy'n codi o ddydd i ddydd. 9.2.2. Nodwyd y sefyllfa bresennol yn y sefydliadau, mewn perthynas â sefydlu canghennau'r Coleg, fel y'i hamlinellwyd yn Atodiad 9/1. Nodwyd fod y darlun yn llawer mwy cadarnhaol mewn rhai sefydliadau nac ydyw mewn sefydliadau eraill, a chadarnhawyd nad yw'r broses o sefydlu canghennau gweladwy wedi ei chwblhau i'r un graddau ym mhob sefydliad. Nodwyd yr angen i'r sefydliadau unigol fynd i'r afael â'r sefyllfa hon ar unwaith. 9.3. <u>Trefniadau Cyflogaeth a Dyletswyddau Swyddogion Cangen</u> 9.3.1. Cafwyd amlinelliad o'r trefniadau cyllidol mewn perthynas â chyflogaeth y swyddogion cangen, fel y'u nodwyd yn y papur. 9.3.2. Nodwyd rhestr o ddyletswyddau swyddogion cangen fel y'u hamlinellwyd yn Atodiad 9/2. Nodwyd dymuniad y Coleg i	Y Coleg i ystyried ymhellach sut i weithredu mewn perthynas â hyn, er mwyn sicrhau fod y canghennau'n cael eu sefydlu'n ddi-oed. Swyddogion y Coleg i ychwanegu'r	Cyn gynted â phosibl. Ar unwaith.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	ychwanegu un ddyletswydd bellach at y rhestr yn dilyn argymhelliad a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 28 Chwefror, sef yr argymhelliad y dylai swyddogion cangen weithredu fel cyswllt ar gyfer gwaith archwilwyr mewnol y Coleg yn y prifysgolion unigol.	ddyletswydd a nodwyd i restr dyletswyddau'r swyddogion cangen.	
	9.3.3. Cymeradwywyd y rhestr o ddyletswyddau, gan gynnwys yr ychwanegiad a nodwyd. Cytunwyd y byddai'r Coleg yn gohebu â'r sefydliadau i gadarnhau'r rhestr o ddyletswyddau.	Y Coleg i ohebu â'r sefydliadau i gadarnhau'r rhestr o ddyletswyddau.	Ar unwaith.
	9.4. <u>Trefniadau cyllido</u> 9.4.1. Nodwyd y cynnig parthed y trefniadau cyllido mewn perthynas â'r grant a ddarperir i'r sefydliadau perthnasol ar gyfer cyflogi swyddogion cangen.		
	9.4.2. Nodwyd yr argymhelliad a nodwyd yn y papur, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y sefydliadau o 1 Awst 2012 ymlaen, a chymeradwyodd y Bwrdd yr argymhelliad.	Y Coleg i weithredu yn unol â'r argymhellion parthed y trefniadau cyllido ar gyfer cyflogi'r swyddogion cangen.	O 1 Awst ymlaen.
	9.5. Nodwyd bwriad y Coleg i ddarparu cyllideb i'r gwahanol ganghennau er mwyn talu am weithgareddau amrywiol yn ystod y flwyddyn y bydd y Coleg yn cytuno ymlaen llaw i'w cyllido.		
	9.5.1. Cymeradwywyd yr argymhelliad.	Y Coleg i weithredu yn unol â'r argymhelliad.	Amserlen i'w chadarnhau.
10 I dderbyn adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar gyfrifon archwiliedig Ebrill-Gorffennaf 2011	10.1. Cafwyd adroddiad llafar gan DT yn nodi'r chwe phrif weithgaredd sy'n syrthio o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio, gyda diweddariad ar y gwaith sydd wedi ei gwblhau hyd yma mewn perthynas â'r gweithgareddau hyn.		
	10.2. Adroddwyd ar y gweithgareddau fel a ganlyn: (i) Nodwyd fod y Pwyllgor wedi derbyn ac ystyried Cyfrifon Rheoli chwarterol y Coleg, a bydd y Pwyllgor yn derbyn cyfrifon rheoli'r Coleg ar gyfer pob chwarter o'r flwyddyn		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	ariannol yn eu cyfarfodydd yn y dyfodol; (ii) Nodwyd fod Cofrestr Risg ddrafft wedi ei llunio, a bydd yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r archwilwyr mewnol. (iii) Nodwyd fod gan y Pwyllgor gyfrifoldeb dros fonitro a goruchwylio systemau cyllid y Coleg. Nodwyd fod y Pwyllgor wedi trafod prosesau'r Coleg, a bydd materion penodol i'w hystyried yn y cyd-destun hwn er mwyn gweithredu argymhellion yr Archwilwyr Allanol. (iv) Nodwyd fod y Pwyllgor wedi apwyntio Archwilwyr Mewnol ar gyfer y Coleg, yn dilyn cynnal proses dendro agored yn gwahodd ceisiadau. Nodwyd y bydd y cwmni a benodwyd (cwmni KTSOwensThomas) yn mynd ati i gwblhau gwaith manwl ar weithdrefnau mewnol y Coleg dros yr wythnosau nesaf. (v) Nodwyd fod y Pwyllgor wedi apwyntio Archwilwyr Allanol ar gyfer y Coleg, yn dilyn proses dendro agored yn gwahodd ceisiadau. Nodwyd y gwaith a gwblhawyd gan y cwmni a benodwyd (cwmni PriceWaterhouseCoopers), a nodwyd fod y Pwyllgor wedi trafod yr argymhellion a gyflwynwyd gan yr Archwilwyr. (vi) Nodwyd fod cyfrifon archwiliedig cyntaf y Coleg wedi eu cyflwyno i ystyriaeth y Pwyllgor, ac fe'u cymeradwywyd ym mis Rhagfyr.		
	10.3. Cafwyd trafodaeth ymysg y Cyfarwyddwyr yn dilyn y cyflwyniad, a chytunwyd y dylai'r Gofrestr Risg fod yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd. Cytunwyd yn ogystal y dylid cyflwyno cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.	Cofrestr Risg y Coleg i'w gyflwyno i ystyriaeth y Bwrdd. Cofnodion y Pwyllgor Archwilio i'w cynnwys gyda phapurau'r Bwrdd yn y dyfodol.	Mehefin 2012.

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
11 I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Staffio	Gadawodd swyddogion y Coleg, heblaw am y Prif Weithredwr, yr ystafell ar yr adeg yma. 11.1 Adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfod o'r Pwyllgor Staffio a gynhaliwyd ar fore cyfarfod y Bwrdd. 11.2 Adroddwyd fod y Pwyllgor wedi ystyried strwythur staffio'r Coleg ac nad oedd wedi ei adolygu adeg sefydlu'r Coleg ac ymgorffori'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. Nodwyd yr angen i adolygu anghenion y Coleg o ran y trefniadau rheoli er mwyn sicrhau fod amser y rheolwyr yn cael ei neilltuo i faterion strategol. 11.3 Cytunwyd i ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Staffio i adolygu'r trefniadau rheoli cyn gynted â phosibl ac i ddirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd i awdurdodi unrhyw argymhellion er mwyn gweithredu arnynt rhag blaen. Ar y pwynt yma, gadawodd y Prif Weithredwr y cyfarfod. 11.4 Adroddwyd ar y trefniadau ar gyfer adolygiad blynyddol y Prif Weithredwr, a fyddai'n gyfrifoldeb ar y Cadeirydd fel y rheolwr llinell. Yn dilyn yr eitem yma ail-ymunodd y swyddogion â'r cyfarfod.	Pwyllgor Staffio i gyfarfod.	Mawrth 2012
12 Cadarnhau dyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd y Bwrdd ar gyfer 2012/13 a 2013/14	12.1. Nodwyd dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd yn 2012/13, a chadarnhawyd y byddai Ysgrifennydd y Coleg, er hwylustod, yn cylchredeg dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd ar gyfer 2012/13 a 2013/14 drwy e-bost yn dilyn y cyfarfod.	Ysgrifennydd y Coleg i gylchredeg dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd ar gyfer 2012/13 a 2013/14.	Mawrth 2012/

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
13 Unrhyw Fater Arall	13.1. Awgrymodd un o'r Cyfarwyddwyr y dylid ystyried ychwanegu cymal i gyfansoddiad y prifysgolion yn unigol, er mwyn nodi'r gofyniad i sefydliadau ymrwymo'n llawn i waith y Coleg. 13.1.1. Cytunwyd i ystyried derbyn cyngor cyfreithiol ynghylch y mater. 13.2. Nododd IM y bwriad i sefydlu is-bwyllgor arall i'r Bwrdd, sef pwyllgor a fyddai'n gyfrifol am ystyried materion yn ymwneud â phrofiad myfyrwyr, prosesau addysgu cydweithredol, a materion ansawdd. Nodwyd y byddai'r pwyllgor yn cael ei sefydlu yn Nhymor yr Haf. 13.3. Nodwyd yr angen i gytuno ar gyfraddau'r ffioedd proffesiynol a delir gan y Coleg ar gyfer cwblhau gwaith penodol, a dosbarthwyd papur yn amlinellu'r ffioedd yr argymhellir eu cynnig gan y Coleg. 13.3.1. Cymeradwywyd y ffioedd fel y'u nodwyd yn y papur, a chytunwyd i'w mabwysiadu ar unwaith.	Swyddogion y Coleg i ystyried derbyn cyngor cyfreithiol ynghylch y mater. Ffioedd i'w mabwysiadu ar unwaith.	Hydref 2012 Ar unwaith.
14 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 20 Mehefin 2012, ym Mangor.		

Derbyniwyd a chymeradwywyd y cofnodion yn ffurfiol yng nghyfarfod Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gynhaliwyd ddydd Mercher, 20 Mehefin, ym Mhrifysgol Bangor.

Llofnod: .....

(Yr Athro R.Merfyn Jones, Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Dyddiad: 20.6.2012